## CANLLAW I DRAFOD MATH O DESTUN:

# TRAFOD

*Trosolwg o nodweddion, iaith a strwythur*

GwE Tuag at Ragoriaeth
YSGOL BOTWNNOG
YSGOL DYFFRYN OGWEN
YSGOL TRYFAN
Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

# PA FATH O DESTUN YW HWN?

**Testun sy'n cynnwys rhesymau a manylion er mwyn dangos pam a sut, sy'n cynnwys yn aml nodi achosion a chanlyniadau a chysylltiadau rhwng digwyddiadau neu syniadau.**

| STRWYTHUR Y TESTUN | GWYBODAETH AM IAITH | CANLLAWIAU YSGRIFENNU |
|---|---|---|
| Bydd testun o'r math hwn i'w weld yn aml yn y ffurfiau canlynol:<br><br>• Adroddiad<br>• Erthygl<br>• Pamffled<br>• Traethawd<br>• Blog<br>• Erthygl olygyddol | Bydd testun o'r math hwn yn cynnwys:<br><br>• Defnydd o'r amser presennol e.e. *"mae",“dywed”,” esbonia”*<br>• Defnydd o ferfau amhersonol: *"gwelir", ”*amlygir”, “sonnir”<br>• Trydydd person y ferf e.e. *“gall', ‘gwêl', ‘awgryma'*<br>• Defnyddio cysyllteiriau e.e. *oherwydd, o ganlyniad, felly, ar y naill law, ar y llaw arall*<br>• Geirfa mynegi barn e.e. *‘fy nghasgliad i yw', ‘yn fy marn i'* | Wrth ysgrifennu testun o'r math hwn gellid:<br><br>• Cyflwyno dwy ochr y ddadl yn gytbwys.<br>• Defnyddio tystiolaeth a rhoi rhesymau.<br>• Cyflwyno'r pwnc.<br>• Defnyddio barn bersonol i lunio casgliad ar y diwedd.<br>• Defnyddio data, graffiau, diagramau a mapiau i egluro safbwyntiau ymhellach.<br>• Dyfynnu wrth gyflwyno safbwyntiau'r ddwy ochr. |

# YSGRIFENNU ER MWYN TRAFOD

Wrth ysgrifennu er mwyn trafod byddwn ni'n defnyddio nifer o dechnegau ond y nod bob amser yw cyflwyno o leiaf ddwy safbwynt ac, o bosibl, dod i gasgliad personol.  Wrth drafod bydd angen i chi **gyflwyno'r** pwnc, cyn mynd ati i drafod **gwahanol** safbwyntiau ac yna **grynhoi** eich barn eich hun.  Byddai'n ddefnyddiol cyflwyno tystiolaeth i gefnogi'r safbwyntiau.  Gallai hwn fod yn ddata, yn lluniau neu ddiagramau. Cryfder arall fyddai dyfynnu'r hyn mae pobl sy'n coleddu'r safbwyntiau wedi ei ddweud.  Gallech ddyfynnu eu geiriau nhw'n uniongyrchol neu aralleirio'r hyn maent wedi'i ddweud.  Bydd rhaid i chi fod yn **gytbwys** gan roi'r un faint o sylw i'r gwahanol safbwyntiau. Peidiwch â dangos tuedd, dim ond cyflwyno'r hyn mae pobl eraill yn ei ddweud am y pwnc.  Dim ond ar y diwedd y gallwch chi roi eich barn eich hun.

**BYDDWCH YN GYTBWYS** – dylech geisio rhoi'r un sylw i bob safbwynt a gyflwynir.

**BYDDWCH YN DREFNUS** – mae trefn arbennig i drafodaeth – cyflwyno'r pwnc, cyflwyno'r safbwyntiau, crynhoi eich barn.

**BYDDWCH YN GLIR** – cofiwch fod rhaid i chi gyflwyno pob safbwynt yn glir ac yn deg. Er mwyn gwneud hyn rhaid:

- trefnu safbwyntiau gyda'i gilydd – er mwyn sicrhau bod eich cynulleidfa yn deall yr hyn mae gwahanol bobl yn ei gredu;
- cyflwyno ffeithiau fel tystiolaeth – er mwyn egluro'r syniadau haniaethol mewn modd mwy ymarferol;
- defnyddio cysyllteiriau – er mwyn llunio brawddegau mwy cymhleth sy'n gallu egluro safbwyntiau'n fanwl.

GwE Tuag at Ragoriaeth
YSGOL BOTWNNOG
YSGOL DYFFRYN OGWEN
YSGOL TRYFAN
Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government